



YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE

POLISI CWRICWLWM

Llofnodwyd gan Gadeirydd y
Llywodraethwyr

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ray Hamman'.

Dyddiad cymeradwyo:
(gan y corff llywodraethu llawn)

15.10.18

Dyddiad adolygu:

Medi 2019



*Datblygu pob dawn
Ar daith drwy'r iaith*

Gweledigaeth

Cymwys am oes

Bydd ddysgwyr yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe yn mwynhau addysgu a dysgu sy'n eu hysbrydoli i lwyddo, mewn cymuned addysg sy'n cydweithredu ac yn anelu at fod yn wych, lle mae potensial pob plentyn yn cael ei ddatblygu.

Rhagarweiniad

Cwricwlwm ein hysgol yw'r holl weithgareddau a gynllunnir er mwyn hybu dysgu, twf a datblygiad personol. Mae'n cynn wŷs nid yn unig gofynion ffurfiol y Cwricwlwm Cenedlaethol a Chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, ond hefyd y gweithgareddau allgyrsiol amrywiol y mae'r ysgol yn eu trefnu i gyfoethogi profiadau'r plant.

Diben ein cwricwlwm fydd i ddatblygu a helpu holl ddisgyblion ein hysgol i fod yn:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Rydym yn ceisio'r safonau cyrhaeddiad gorau posib i'n holl blant. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi ehangder y cwricwlwm a ddarperir gennym. Ein nod yw meithrin creadigrwydd yn ein plant, a'u helpu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Uwchlaw popeth, credwn y dylai dysgu fod yn hwyl a bod ymlyniad y plant yn wraidd i gynnwys ein cwricwlwm.

Nodau

Yn sail i gwricwlwm ein hysgol y mae'r gwerthoedd yr ydym yn eu hystyried yn bwysig yn ein hysgol. Drwy'r cwricwlwm y mae'r ysgol yn cyflawni ei hamcan o addysgu'r plant o ran y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y bydd eu hangen arnynt er mwyn byw bywydau llawn.

Dyma brif amcanion yr ysgol a'r hyn sy'n sail i'r cwricwlwm:

- Pob disgybl yn cael cyfle i gyrraedd ei lawn botensial yn academiaidd, yn gymdeithasol, yn gorfforol, yn ysbrydol a moesol
- Awyrgylch hapus, cartrefol a diogel yn bodoli a bod pob plentyn yn cael ei annog i chwarae rôl flaenllaw a gweithredol ym mywyd yr ysgol
- Y disgybl yn ganolog i'r broses o ddysgu a bod cyfaniad pob unigolyn yn cael ei barchu.
- Pawb yn magu balchder yn yr iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n cenedl.

- Pwyslais ar ddatblygu sgiliau personol megis hunan hyder, hunan fynegiant, hunan barch, parch at eraill, sgiliau arwain a sgiliau datrys problemau o gychwyn eu hamser yn yr ysgol.
- Cysylltiadau cryf â'r gymuned leol, a dechrau paratoi plant i fod yn oedolion cyfrifol yn eu cymunedau a datblygu'n ddinasyddion byd eang.

Nodau

Dyma nodau cwricwlwm ein hysgol:

- galluogi'r holl blant i ddysgu a datblygu eu sgiliau hyd eithaf eu gallu;
- hyrwyddo agwedd gadarnhaol at ddysgu, er mwyn i blant fwynhau dod i'r ysgol, a chaffael sail gadarn ar gyfer dysgu gydol oes;
- addysgu sgiliau sylfaenol llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i'r plant.
- galluogi plant i fod yn greadigol ac i ddatblygu eu meddwl eu hunain;
- addysgu plant am y byd sy'n datblygu, gan gynnwys sut mae eu hamgylchedd a'u cymdeithas wedi newid dros amser;
- helpu plant i ddeall treftadaeth ddiwylliannol Cymru;
- gwerthfawrogi a rhoi gwerth ar gyfraniad yr holl grwpiau ethnig yn ein cymdeithas amlddiwylliannol;
- galluogi plant i fod yn ddinasyddion cadarnhaol;
- cyflawni holl ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a'r Maes Llafur Addysg Grefyddol Gytunedig;
- addysgu plant fel bod ganddynt ymwybyddiaeth o'u datblygiad ysbrydol eu hunain, a'r gallu i wahaniaethu rhwng da a drwg;
- helpu plant i ddeall pwysigrwydd y gwir a thegwch, er mwyn iddynt feithrin ymdeimlad o gyfle cyfartal i bawb;
- galluogi plant i barchu eu hunain a datblygu hunanwerth, a byw a gweithio'n gydweithredol gydag eraill.

Trefnu a Chynllunio

Rydym yn cynllunio ein cwricwlwm ar draws dau gyfnod, sef y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Cychwynnwyd ar y broses o ddatblygu cwricwlwm fe addaswyd y cynlluniau i blethu a chydbwysu gofynion y cwricwlwm cenedlaethol gyda pherthnasedd y cynnwys a'i wneud yn fwy addas i ni yma ym Mhontardawe. Sicrheir bod hunaniaeth a'r cwricwlwm Cymreig yn wraidd i'n cynlluniau.



Yn aml fe ddefnyddir sbardun lleol neu syniadau'r plant i greu cywaith sy'n ennyn diddordeb y plant. Yr enw a roddir ar y cyweithiau yma yw 'Trysorau Tawe'. Datblygir y cyweithiau hyn ar draws yr ysgol. Mae cynllun hirdymor yr ysgol yn tracio cyfleoedd i ddatblygu'r pedwar diben, y tri sgil traws cwricwlaidd (sef Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol) a'r sgiliau sy'n cael eu datblygu yn y 6 maes dysgu a phrofiad sef Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Yn ogystal â'r uchod, drwy'r map hirdymor gwelir y ddarpariaeth ar gyfer sgiliau meddwl ac AAgD, y cyweithiau cymhwyso a datrys problem, genres ysgrifennu a nofelau neu straeon.

Yn y cynlluniau tymor canolig gwelir llawer fwy o fanylder am bob adran yn cynnwys y sgiliau a'r profiadau sy'n cael eu datblygu ar draws y thema. Bwriad ein cynllun newydd Trysorau Tawe yw darparu profiad dysgu sy'n hwyl ac yn atyniadol i ddysgwyr, ac sy'n cynnig dynesiad ymholi ffres a chyffrous i ddysgwyr ifanc. Mae cynlluniau bob dosbarth yn amlinellu dilyniant ar draws yr ysgol ar gyfer ystod pob maes unigol a'r medrau allweddol ac ehangach a welir ar draws y cwricwlwm. Ein cynlluniau tymor byr yw'r rheiny y mae'n hathrawon yn eu llunio bob cylchdro (tua pythefnos). Rydym yn defnyddio'r rhain i ddisgrifio'r amcanion dysgu ar gyfer pob sesiwn, a nodi'r sgiliau, gwybodaeth a'r gweithgareddau y byddwn yn eu defnyddio yn y gwersi.

Yn y Cyfnod Sylfaen, rydym yn cynllunio'r cwricwlwm yn ofalus, er mwyn iddo gwmpasu holl agweddau'r Canlyniadau Dymunol a'r nodau dysgu cynnar yn gydlynol ac yn gyflawn, ac mae dilyniant cynlluniedig ym mhob maes yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllunio ar gyfer y cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a phrofiadau'r plant. Mae ein hysgol yn cefnogi'n llwyr yr egwyddor bod plant bach yn dysgu drwy chwarae, a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig wedi'u cynllunio'n dda. Ar gyfer CA2, rydym yn darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg, Saesneg a Mathemateg ac yn darparu cyfleoedd i gymhwyso'r sgiliau hynny yn drawsgricwlaidd.

Rydym yn ymwybodol iawn bod angen cefnogaeth rhieni ac athrawon ar blant er mwyn datblygu'n dda yn yr ysgol. Rydym yn ymdrechu i adeiladu cysylltiadau cadarnhaol â rhieni pob plentyn drwy eu hysbysu am yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu, a sut mae pob plentyn yn datblygu.

Asesu

Mae ein polisi a'n gweithdrefnau asesu yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Dylai asesu elwa pob plentyn, beth bynnag eu gallu, eu hil, eu rhywogaeth neu eu cefndir.
- Dylai asesu fod yn hanfodol i'r broses o gynllunio.
- Dylai asesu adlewyrchu holl amrediad y dysgu a'r addysgu.
- Dylai asesu alluogi plant i gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu haddysg a'u hunan werthuso.
- Dylai asesu gynnig cyfleoedd i'r dysgwr i drafod ac adolygu gydag athrawon ar lefel bersonol.

- Dylai'r broses asesu gynnog cyfleoedd i ddatblygu a chofnodi cyflawniadau personol a medrau cyffredinol.
- Dylai asesu gyflawni gofynion statudol a chyfreithiol.
- Dylai asesu fod yn hylaw ac ymarferol.
- Dylai asesu ddarparu gwybodaeth ar gyfer rhieni, athrawon eraill, llywodraethwyr, ysgolion eraill, ac asiantaethau allanol.
- Dylai asesu fod yn gyson, a dylid eu cymedroli yn fewnol ac yn allanol.

Fe ddefnyddiwn asesu cyfansymiol a ffurfiannol yn ein hysgol, yn hytrach nag un neu'r llall, oherwydd bod y ddau yn cyflawni swyddogaethau gwahanol ond cyfochrog. Yn ganolog i lwyddiant ac effeithiolrwydd ein gweithdrefnau asesu fydd eglurdeb y nodau dysgu, tryloywder y meini prawf llwyddiant ac ansawdd yr adborth a'r marcio, sydd, gyda'i gilydd, yn greiddiol i athroniaeth Asesu ar gyfer Dysgu. Mae asesiadau athrawon yn cael eu tracio o flwyddyn i flwyddyn ar hyd gyrfa ysgol y plentyn drwy'r system Incerts a SIMS. Am fanylion pellach ar ein gweithdrefnau asesu, gweler ein Polisi Asesu.

Y Cwricwlwm a Chynhwysiad

Cynllunnir y cwricwlwm yn ein hysgol fel bod yr holl blant yn yr ysgol yn gallu cael mynediad iddo. Os credwn fod angen addasu mynediad rhai plant i'r cwricwlwm, er mwyn diwallu eu hanghenion, yna gwnawn hyn yn dilyn ymgynghori â'u rhieni.

Os oes anghenion arbennig gan blant, mae ein hysgol yn gwneud popeth o fewn ei gallu i ddiwallu anghenion yr unigolyn, ac rydym yn cydymffurfio â'r gofynion a ddisgrifir yn y Côt Ymarfer AAA. Os bydd plentyn yn arddangos arwyddion bod ganddo anghenion arbennig, bydd ei athro/athrawes yn asesu'r angen hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr athrawon yn gallu darparu'r adnoddau a'r cyfleoedd addysgol i ddiwallu anghenion y plentyn, o fewn trefniadau arferol y dosbarth. Os bydd anghenion y plentyn yn fwy difrifol, byddwn yn ystyried cyfeirio'r plentyn hwnnw at un neu fwy o'r asiantaethau neu wasanaethau sydd ar gael i ni fel ysgol. Rydym bob amser yn darparu adnoddau a chefnogaeth ychwanegol i blant ag anghenion arbennig.

Mae'r ysgol yn darparu Cynllun Addysg Unigol (CAU) i bob plentyn sydd ar y gofrestr anghenion arbennig. Mae hwn yn disgrifio natur yr angen arbennig, ac yn amlinellu sut mae'r ysgol yn bwriadu mynd i'r afael â hynny. Mae'r CAU hefyd yn pennu'r targedau ar gyfer gwelliant, fel y gallwn adolygu a monitro cynnydd pob plentyn yn rheolaidd. Ein nod yw diwallu anghenion pob grŵp o blant yn ein hysgol. Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd diwygiedig a ddaeth i rym ym Medi 2002. Cyflawnir pob cam rhesymol i sicrhau nad yw'r plant hyn dan anfantais sylweddol o'u cymharu â phlant eraill. Addasir y dysgu a'r addysgu yn briodol ar gyfer plant ag anableddau. Er enghraifft, mae'n bosib y rhoddir mwy o amser iddynt i gyflawni rhai gweithgareddau, neu efallai yr addasir y deunyddiau addysgu.

Rydym yn cydnabod fod canran arwyddocaol o'n disgyblion yn blant mwy abl a thalentog (MATH). Darperir ar eu cyfer mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys tasgau gwahaniaethol, grwpiau gallu a gweithgareddau allanol. Os ystyriwn ddisgybl yn

ethriadol abl a thalentog (EATh), derbyniant Gynllun Addysg Unigol (CAU) er mwyn cwrrd â'u hanghenion ychwanegol.

Medrau Ehangach a Sgiliau Personol am Oes

Nodir y sgiliau canlynol fel 'Sgiliau SPO':

- Meddylfryd o dwf
- Cydweithio
- Dycnwch
- Dyfalbarhad
- Empathi
- Ymwybyddiaeth fwriadol
- Sgiliau meddwl a datrys problem
- Adfyfrio

Wrth gynllunio'r cwricwlwm, rydym yn pwysleisio'r sgiliau hyn fel rhan o ddatblygu'r pedwar diben ac wrth ddatblygu unigolion sydd â sgiliau cynnwys am oes.

Rôl yr arweinydd Maes Dysgu a Phrofiad

Rôl yr arweinydd yw:

- darparu arweiniad strategol a chyfeiriad ar gyfer y maes;
- cefnogi a chynghori cydweithwyr ar faterion sy'n ymwneud â'r maes;
- monitro cynnydd disgyblion yn y maes hwnnw;
- darparu rheolaeth effeithlon o ran adnoddau ar gyfer y maes.

Yn ogystal ag arweinydd, ceir timoedd Llythrennedd, Rhifedd a Thechnoleg Gwybodaeth. Ceisir rhoi aelod o bob adran ar y timoedd hynny er mwyn bod arweinyddion yn gallu cydweithio'n fwy effeithio a'r adrannau ar draws yr ysgol. Gweler y polisi arweinyddiaeth ar gyfer fanylion pellach.

Monitro ac adolygu

Pwyllgor Cynllunio Strategol y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am fonitro'r ffordd y mae cwricwlwm yr ysgol yn cael ei weithredu. Mae llywodraethwr penodol wedi'i ddynodi ar gyfer ADY, sy'n cydgysylltu â'r Cydlynnydd ADY, ac yn monitro'r ffordd yr eir ati i fynd i'r afael ag anghenion arbennig.

Y pennaeth sy'n gyfrifol am drefnu'r cwricwlwm o ddydd i ddydd. Cyd gynlluniau'r adrannau ar y cyd i sicrhau dilyniant a chysondeb. Mae'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth yn monitro'r cynlluniau, craffu ar lyfrau ac yn siarad gyda disgyblion yn dilyn amserlen benodol, gan sicrhau bod holl ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a Chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn cael eu haddysgu i'r holl ddosbarthiadau, a bod gan yr holl wersi amcanion dysgu priodol. Darperir adroddiad i'r arweinwyr adran. Adolygir unrhyw dargedau a osodwyd i'r arweinwyr adran yn y cyfnod monitro nesaf. Mae'r pennaethiaid adran yn monitro safonau dysgwyr ac ansawdd yr addysgu o fewn eu hunedau.

Mae'r polisi hwn yn cael ei fonitro gan y Corff Llywodraethu a'i adolygu yn ôl yr angen.